

## Bod yno

*Y mae Victoria Jones a'i thîm yn arddangos prosiect newydd sy'n ymateb i ofynion cymuned yn Sir Gaerfyrddin*

Yn 2018 rhoddodd Duw weledigaeth i mi am Cross Hands, sef sefydlu canolfan i blant, pobl ifanc a theuluoedd gyda chnewyllyn eglwys i'r di-eglwys, ardal chwarae meddal, caffi a chanolfan picio i mewn i'r ifanc. Ar ddiwedd Ionawr 2020 rhyddhaodd Esgob Joanna fi o'm dyletswyddau plwyfol er mwyn gweithredu'r weledigaeth a'i gwneud yn realiti o fewn Archddiaconiaeth er Cymunedau Cristnogol Newydd ac Efengylu.

Penderfynwyd ar yr enw *Impact 242* gan ein bod am gael effaith ar ein cymuned leol, ac mae'r tair llythrennolaf, 'act' a'r rhifau '242' yn cysylltu â llyfr yr Actau 2:42'Yr oeddent yn dyfalbarhau yn nysgeidiaeth yr apostolion ac yn y gymdeithas, yn y torri bara ac yn y gweddiau.' Creodd hyn y DNA i'r gymuned eglwysig newydd a ddaeth i fodolaeth.



Wedi derbyn grant Efengylu, a gyda help y Pwyllgor Ariannu Datblygu Efengylu yn yr esgobaeth, daethom i gytundeb gydag Ymddiriedaeth Sinema Cross Hands, gan gymryd ar brydlles Neuadd gefn y sinema, ac agorwyd ein drysau yn ystod diwedd mis Mawrth 2020. Roedd hyn wedi digwydd adeg y cloi, gan danlinellu gofynion ehangach yn ein cymuned a'n harwain at agor canolfan ymateb i greisis bwyd Covid-19.



Y mae diwrnod cyffredin o 9.30 yb tan 10yh. Mae'r banc bwyd ar agor 10yb- 12.30yh. Mae siopa am ffrwythau a llysiau ail-lenwi cyflenwad tuniau a dadbacio o 2yh-5yh, gyda codiadau gyda'r nos a dadbacio o 8.0 – 10 yh. Yr ydym yn helpu cymaint mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr lleol, y mwyafrif heb fod yn eglwyswyr, cyrff stadudol lleol, ac arweinwyr cymunedol.

I ni fe lawnsiwyd *Impact 242* mewn ffordd hollol annisgwyl – y mae'r bobl yn y gymuned nawr yn gwybod pwy ydym ni a beth yr ydym yn ei wneud. Buom yn lle gall pobl droi ato mewn amseroedd bregus ac mwyaf anodd. Gallom helpu cymaint o bobl a'u harwain i'r cyfeiriad cywir i gael help ychwanegol a chlust sy'n gwrando, yn enwedig yr henoed sy'n unig.

Ein breuddwyd yw i barhau, nid i'n clymu i wneud yr un peth o hyd, i barhau i ofyn y cwestiwn 'beth nesa' Dduw?' Ein gweddi yw y byddwn wastad yn barod ac ar gael i wasanaethu ein cymuned beth bynnag eu gofynion, ein bod wedi canolbwyntio ar yr Iesu a wastad yn barod i fod yn fodlon camu ymlaen mewn ffydd gyda chalonnau gwasiaidd.